Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Cyfreithiol - Amodau a Gofynion COVID-19

DDIM MEWN GRYM

CYMWYSTERAU CYMRU
QUALIFICATIONS WALES

AWST 2020

Rheoli Fersiwn

Cyhoeddwyd Fersiwn (3) o'n Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol - Amodau a Gofynion COVID-19 ar 19 Awst 2020. Mae hwn yn disodli Fersiwn 2 a gyhoeddwyd ar 17 Awst 2020.

Diweddarwyd y fersiwn hon yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg ddydd Llun 17 Awst y bydd cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol (UG), Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru bellach yn cael eu dyfarnu ar sail graddau asesu canolfannau.

Cynnwys

Cyflwyniad 4

Amod GQCov1 - Cymhwysiad, Dehongliad a diffiniadau 5

Amod GQCov2 Canslo cyfres asesu haf 2020 8

Amod GQCov3 Canlyniadau yn 2020 9

Amod GQCov4 Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau 12

Amod GQCov5 Apeliadau 13

Amod GQCov6 Penderfyniadau Canolfan yn ymwneud ag apeliadau 16

Gofynion mewn perthynas â'r wybodaeth y gofynnir amdani gan Ganolfannau 17

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n nodi ein gofynion rheoleiddio ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cyffredinol yr effeithir arnynt yn ystod pandemig Covid-19.

Y cymwysterau yr effeithir arnynt yw:

- Cymwysterau TGAU Cymeradwy;
- Cymwysterau TAG Uwch Gyfrannol (UG) Cymeradwy;
- Cymwysterau TAG Safon Uwch Cymeradwy;
- Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (THS), a
- Cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch Etifeddol sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn unig[1].

Mae'r ddogfen hon yn nodi Amodau Cymwysterau Cyffredinol Covid-19. Mae hefyd yn nodi ein gofynion mewn perthynas â'r wybodaeth y gofynnir amdani gan Ganolfannau[2].

Daeth y Ddogfen Reoleiddio hon i rym ar ar gyfer yr holl gymwysterau yr effeithir arnynt ar 29 Mehefin 2020.

O ran yr holl gymwysterau cyffredinol y mae'r Amodau a nodir yn y ddogfen yn berthnasol iddynt, ac eithrio i'r graddau a nodir yn yr Amodau hynny, rhaid i gyrff dyfarnu hefyd gydymffurfio â:

- ein dogfen Amodau Cydnabod Cyffredinol[3] sy'n berthnasol i bob corff dyfarnu a chymhwyster, a
- yr holl Ddogfennau Rheoleiddio perthnasol.[4]

[1] CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plant, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol CBAC Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

[2] Cyhoeddwyd canllawiau i ganolfannau ar gyflwyno graddau asesu canolfannau ar 3 Ebrill 2020. Roedd fersiwn wedi'i diweddaru ar gael ar 18 Mai 2020. Gellir dod o hyd i hwn yn https://qualificationswales.org/media/5972/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau-fersiwn-2-18-mai-2020.pdf

[3] https://www.qualificationswales.org/english/publications/standard-conditions-of-recognition/

[4] https://www.qualificationswales.org/english/publications/regulatory-documents-list/

Amod GQCov1 - Cymhwysiad, Dehongliad a diffiniadau

Cymhwysiad

GQCov1.1 Mae Amodau GQCov yn berthnasol –

(a) i bob Cymhwyster GQ,

(b) tan unrhyw ddyddiad a bennir yn, neu y penderfynir arno o dan, unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru o dan yr amod hwn.

GQCov1.2 Gall unrhyw hysbysiad o'r fath a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru –

(a) gael ei roi mewn perthynas ag un neu fwy -

(i) Cymwysterau GQ,

(ii) Amodau GQCov,

(b) gael ei amrywio neu ei dynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a bennir ynddo neu y penderfynir arno, a

(c) gynnwys unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn briodol.

GQCov1.3 Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â gofynion unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed sydd wedi'u cynnwys mewn hysbysiad a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru o dan Amod GQCov1.2.

Dehongliad a diffiniadau

GQCov1.4 Oni bai bod darpariaeth arall wedi'i gwneud yn Amod GQCov1.7, bydd y canlynol yn berthnasol i Amodau GQCov -

(a) y rheolau dehongli a'r diffiniadau a amlinellir yn Amod Safonol J1,

(b) y diffiniadau a amlinellir yn yr Amodau Lefel Cymhwyster (Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU/TAG ac Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru).

GQCov1.5 Ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Amod GQCov1.6, mae'r gofynion a osodir gan Amodau GQCov yn berthnasol yn ychwanegol at y gofynion a osodir gan yr Amodau Cydnabod Safonol, unrhyw

Amodau Lefel Cymhwyster perthnasol, Meini Prawf Cymeradwyo ac unrhyw Ddogfen Reoleiddio[5] arall.

GQCov1.6 I'r graddau bod unrhyw anghysondeb rhwng -

(a) un o ofynion Amod GQCov, a

(b) gofyniad Amod Cydnabod Safonol, Amod Lefel Cymhwyster, Meini Prawf Cymeradwyo neu unrhyw Ddogfen Reoleiddio arall,

fel na allai corff dyfarnu gydymffurfio â'r ddau ofyniad o'r fath, rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â gofyniad Amod GQCov ac nid oes rheidrwydd arno i gydymffurfio â gofyniad Amodau eraill, Meini Prawf Cymeradwyo ac unrhyw Ddogfen Reoleiddiol arall.

GQCov1.7 Yn yr Amodau hyn bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod (a dylid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny) -

Data Asesu Canolfannau

Gradd asesu canolfan a threfn restrol a roddir i Ddysgwr gan Ganolfan Berthnasol.

Amodau Lefel Cymhwyster

Unrhyw Amod Lefel Cymhwyster sy'n berthnasol i Gymhwyster GQ.

Cymhwyster GQ

Cymhwyster sy'n unrhyw un o'r canlynol –

(a) Cymwysterau TGAU Cymeradwy;

(b) Cymwysterau TAG UG Cymeradwy;

(c) Cymwysterau TAG Safon Uwch cymeradwy;

(d) Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (THS), a

(e) Cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch Etifeddiaeth sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn unig[6].

[5] Dogfen reoleiddiol, neu ran o ddogfen reoleiddiol, a geir mewn dogfen o'r enw'r 'Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddiol', a all gael ei chyhoeddi gan Cymwysterau Cymru ac a all gael ei hamrywio a'i disodli gan Cymwysterau Cymru o bryd i'w gilydd.

[6] CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol,

Ymgeisydd Preifat

Dysgwr nad oes Canolfan Berthnasol yn gysylltiedig ag ef.

Canolfan Berthnasol

Mewn perthynas â Dysgwr, Canolfan sydd -

(a) wedi prynu'r Cymhwyster GQ ar ran y Dysgwr, ac

(b) wedi cyfrannu'n sylweddol at baratoi'r Dysgwr ar gyfer yr asesiad (p'un ai trwy addysgu neu gyfarwyddyd a ddarperir gan Athrawon a gyflogir ganddi neu fel arall).

CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plant, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol CBAC Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Amod GQCov2 Canslo cyfres asesu haf 2020

GQCov2.1 Yn ystod y cyfnod amser pan fydd yr Amod hwn mewn grym -

(a) rhaid i gorff dyfarnu sicrhau nad oes unrhyw Ddysgwr yn cymryd asesiad ar gyfer Cymhwyster GQ y mae'n ei ddarparu iddo, a

(b) rhaid i gorff dyfarnu beidio â Chymedroli asesiad ar gyfer Cymhwyster GQ.

Amod GQCov3 Canlyniadau yn 2020

GQCov3.1 Rhaid i gorff dyfarnu –

(a) roi canlyniad i bob Dysgwr a gofrestrwyd ar neu cyn 21 Chwefror 2020, ac sy'n parhau i fod wedi'i gofrestru, i gymryd Cymhwyster GQ y mae'n ei ddarparu iddo yn ystod cyfres asesu haf 2020, a

(b) caiff roi canlyniad i Ddysgwr -

(i) y gallai yn rhesymol fod wedi disgwyl i'r corff dyfarnu fod wedi'i gofrestru i gymryd Cymhwyster GQ y mae'n ei ddarparu yn ystod cyfres asesu haf 2020, a

(ii) oedd heb ei gofrestru felly.

GQCov3.2 O ran pob canlyniad y mae'n ei gyhoeddi o dan Amod GQCov3.1, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod -

(a) yn cyfrifo'r canlyniad hwnnw -

(i) yn unol ag unrhyw ofynion neu amodau arbennig, a chan ystyried unrhyw ganllawiau a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u hadolygu o bryd i'w gilydd, a

(ii) gan ddefnyddio gwybodaeth y mae wedi gofyn amdani gan Ganolfannau yn unol ag unrhyw ofynion neu amodau arbennig, a chan ystyried unrhyw ganllawiau a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru, neu a bennir fel arall i'r corff dyfarnu gan Cymwysterau Cymru a'u hadolygu o bryd i'w gilydd, a

(b) yn cymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi'r canlyniad hwnnw yn unol ag unrhyw ddyddiad y cytunwyd arno gyda Cymwysterau Cymru.

GQCov3.3 Rhaid i gorff dyfarnu –

(a) ddarparu arweiniad effeithiol i Ganolfannau ar ddarparu gwybodaeth o dan Amod GQCov3.2(a)(ii), a

(b) darparu trefniadau clir ac effeithiol er mwyn i'r Ganolfan allu cysylltu â'r corff dyfarnu os yw'n cael anawsterau wrth ddarparu'r wybodaeth honno.

Datganiad Pennaeth y Ganolfan

GQCov3.4 Rhaid i gorff dyfarnu beidio â chyhoeddi unrhyw ganlyniad o dan Amod GQCov3.1 mewn perthynas â Dysgwr nad yw wedi derbyn datganiad ar ei gyfer sy'n cwrdd â'r gofynion a bennir gan Cymwysterau Cymru o dan Amod GQCov3.2(a) (ii).

GQCov3.5 Ni fydd y gofyniad yn Amod GQCov 3.4 yn gymwys i Ymgeisydd Preifat sydd:

(a) mewn perthynas â chymwysterau TGAU Cymeradwy a chymwysterau TAG UG Cymeradwy:

(i) wedi eu cofrestru, neu y gallai'r corff dyfarnu yn rhesymol fod wedi eu disgwyl i gael eu cofrestru, yn unol ag Amod GQCov 3.1;
(ii) y gellir eu hadnabod yn glir fel cofnod Ymgeisydd Preifat;
(iii) wedi cwblhau o leiaf 25% o gyfanswm yr asesiad mewn cyfresi blaenorol, a
(iv) nid oes unrhyw Ddata Asesu Canolfannau wedi'i gyflwyno.

(b) mewn perthynas â chymwysterau TAG Safon Uwch Cymeradwy:

(i) wedi eu cofrestru, neu y gallai'r corff dyfarnu yn rhesymol fod wedi eu disgwyl i gael eu cofrestru, yn unol ag Amod GQCov 3.1;
(ii) y gellir eu hadnabod yn glir fel cofnod Ymgeisydd Preifat;
(iii) wedi cwblhau pob uned TAG UG Cymeradwy mewn cyfres flaenorol, a
(iv) nad oes unrhyw Ddata Asesu Canolfannau wedi'i gyflwyno

(c) mewn perthynas â chymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru:

(i) wedi eu cofrestru, neu y gallai'r corff dyfarnu yn rhesymol fod wedi eu disgwyl i gael eu cofrestru, yn unol ag Amod GQCov 3.1;
(ii) y gellir eu hadnabod yn glir fel cofnod Ymgeisydd Preifat;
(iii) wedi cwblhau o leiaf 25% o gyfanswm yr asesiad mewn cyfresi blaenorol, a
(iv) nid oes unrhyw Ddata Asesu Canolfannau wedi'i gyflwyno.

GQCov 3.6 Mewn perthynas â'r Ymgeiswyr Preifat hynny sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a amlinellir yn Amod GQCov 3.5:

(a) nid oes angen unrhyw wybodaeth o'r Ganolfan yn unol ag Amod GQCov3.2(a)(ii), ac felly nid oes angen datganiad yn unol ag Amod GQCov 3.4; a

(b) rhaid i'r corff dyfarnu gyfrifo canlyniad yn unol ag Amod GQCov3.2(a)(i) i'r graddau y mae'r cyfryw ofynion a chanllawiau yn ymwneud ag ymgeiswyr o'r fath.

Cyfrinachedd y wybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau

GQCov3.7 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth a bennir yn Amod GQCov3.8 yn cael ei chadw'n gyfrinachol (gan gynnwys gan Athrawon a Chanolfannau) cyn -

(a) mewn perthynas â chymwysterau TGAU a'r Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru CA4, 08:00 ar 20 Awst 2020, a
(b) mewn perthynas â'r holl Gymwysterau GQ eraill, cyhoeddi canlyniadau o dan Amod GQCov3.1.

GQCov3.8 Y wybodaeth y mae Amod GQCov3.7 yn cyfeirio ati yw'r wybodaeth a ddarperir i'r corff dyfarnu o dan Amod GQCov3.2(a)(ii), a sut y daethpwyd i'r wybodaeth honno.

GQCov3.9 Rhaid i gorff dyfarnu drin unrhyw achos o dorri cyfrinachedd o dan Amod GQCov3.7 fel camymddwyn a/neu gamweinyddu o dan Amod Cydnabod Safonol A8.

Amod GQCov4 Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau

GQCov4.1 Rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â threfniadau i ddarparu i Ganolfan, ar gais, y wybodaeth a ddefnyddir i gyfrifo'r canlyniad a gyhoeddir o dan Amod GQCov3.1 i Ddysgwr y darparodd y Ganolfan wybodaeth ar ei gyfer i'r corff dyfarnu o dan Amod GQCov3.2(a)(ii).

GQCov4.2 Rhaid i'r trefniadau –

(a) ddarparu digon o wybodaeth, a

(b) caniatáu amser rhesymol,

i Ddysgwyr a Chanolfannau ystyried a ddylid gofyn am apêl o dan Amod GQCov5.

GQCov4.3 Gall y trefniadau –

(a) nodi mai dim ond ar dalu ffi y bydd y corff dyfarnu yn darparu'r wybodaeth berthnasol;

(b) nodi gofynion rhesymol eraill ar gyfer gwneud cais am y wybodaeth, a

(c) nodi cyfnod amser y mae'n rhaid gofyn am y wybodaeth o'i fewn.

Amod GQCov5 Apeliadau

GQCov5.1 Mewn perthynas â phob canlyniad y mae'n ei gyhoeddi o dan Amod GQCov3.1, rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â phroses apelio effeithiol sy'n darparu ar gyfer apêl i'r corff dyfarnu yn unig ar y sail (ac nid ar unrhyw sail arall) –

(a) nad oedd y corff dyfarnu wedi cymhwyso unrhyw weithdrefnau yn gyson neu nad oedd gweithdrefnau o'r fath yn cael eu dilyn yn iawn ac yn deg.

(b) bod y corff dyfarnu wedi defnyddio'r data anghywir wrth gymhwyso'r gweithdrefnau a nodir o dan Amod GQcov3.2(a)(i), a

(c) bod canlyniad a gynhyrchwyd trwy gymhwyso'r broses a nodir o dan Amod GQCov3.2(a)(i) wedi'i gyflwyno'n anghywir gan y corff dyfarnu mewn perthynas ag un neu fwy o Ddysgwyr.

GQCov5.2 At ddibenion Amod GQCov5.1(b), mae'r 'data anghywir' -

(a) yn cynnwys

(i) data anghywir a ddarperir gan Ganolfan o dan Amod GQCov3.2(a)(ii), a

(ii) set ddata heblaw'r un a bennir yn y gofynion a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru o dan Amod GQCov3.2(a)(i), gan gynnwys lle mae'r setiau data mewn perthynas â dwy Ganolfan neu fwy wedi'u trosi, a

(iii) set ddata, gan gynnwys Data Asesu Canolfannau, a bennir yn y gofynion a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru o dan Amod GQCov3.2(a)(i) y cyflwynwyd gwallau iddynt gan y corff dyfarnu, a

(b) ddim yn cynnwys

(i) set ddata a bennir yn y gofynion a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru o dan Amod GQCov3.2(a)(i) sy'n cynnwys gwallau neu hepgoriadau na chawsant eu cyflwyno gan y corff dyfarnu, a

(ii) newid arfaethedig ym marn broffesiynol y Ganolfan a oedd yn sail i'r Data Asesu Canolfannau a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r corff dyfarnu.

GQCov5.3 Gall y broses apelio sydd gan gorff dyfarnu yn ei lle ddarparu bod unrhyw gais am apêl mewn perthynas â Dysgwr yn cael ei wneud

(a) ar ran y Dysgwr gan y Ganolfan a gyflwynodd wybodaeth mewn perthynas â'r Dysgwr hwnnw o dan Amod GQCov3.2(a)(ii), a

(b) gyda chydsyniad y Dysgwr.

GQCov5.4 Rhaid i'r broses apelio a roddir ar waith gan gorff dyfarnu ddarparu'r canlynol:

(a) gall Ymgeisydd preifat sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn Amod GQCov3.5 apelio'n uniongyrchol at y corff dyfarnu, a

(b) na all Ymgeisydd Preifat y mae Data Asesu Canolfannau ar gael ar ei gyfer apelio'n uniongyrchol at y corff dyfarnu.

GQCov5.5 Gall y broses apelio –

(a) nodi y bydd y corff dyfarnu yn cynnal apêl dim ond ar ôl talu ffi,

(b) nodi gofynion rhesymol eraill ar gyfer gwneud cais am apêl, a

(c) nodi cyfnod amser y mae'n rhaid gofyn am apêl o'i fewn.

GQCov5.6 Pan fo'r trefniadau'n nodi cyfnod amser y mae'n rhaid gofyn am apêl o'i fewn, rhaid i'r cyfnod amser -

(a) fod yn rhesymol, a

(b) cydymffurfio ag unrhyw ofynion a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.

GQCov5.7 Rhaid i'r broses apelio ddarparu ar gyfer –

(a) sicrhau bod pob penderfyniad apelio yn cael ei wneud gan bersonau sydd â chymhwysedd priodol ac nad oes ganddynt fuddiant personol yn y penderfyniad sy'n destun yr apêl,

(b) sicrhau bod y penderfyniad terfynol mewn perthynas â chanlyniad apêl yn gynnwys o leiaf un penderfynwr nad yw'n gyflogai i'r corff dyfarnu, Asesydd sy'n gweithio iddo, neu sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd arall, a

(c) sicrhau bod y corff dyfarnu yn adrodd ar ganlyniad apêl i'rGanolfan a ofynnodd am yr apêl ar ran y Dysgwr, neu i Ymgeisydd Preifat, gan nodi'r rhesymau dros y canlyniad hwnnw.

GQCov5.8 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y penderfyniad terfynol mewn perthynas â chanlyniad apêl yn cael ei gymryd gan bersonau nad oeddent ynghynt yn rhan o'r broses a oedd yn arwain at gyhoeddi canlyniadau mewn perthynas â Dysgwr y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

GQCov5.9 Rhaid i'r broses apelio ddarparu ar gyfer cywiro canlyniad heb ei fod yn yn ofynnol cwblhau'r broses apelio lawn mewn amgylchiadau lle mae'r corff dyfarnu yn derbyn bod y gwall a nodwyd yn y cais apêl wedi digwydd.

GQCov5.10 Pan fydd cynnal y broses apelio yn achos unrhyw Ddysgwr yn achosi i gorff dyfarnu ddarganfod methiant yn ei broses asesu, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i

(d) adnabod unrhyw Ddysgwr arall sydd wedi cael ei effeithio gan y methiant, a

(e) heb ragfarnu Amod GQCov5.11, cywiro neu, lle na ellir ei gywiro, lliniaru effaith y methiant cyn belled ag y bo modd.

GQCov5.11 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd camau rhesymol i sicrhau na wneir cywiriad o dan Amod GQCov5.10 sy'n gostwng canlyniad unrhyw Ddysgwr.

GQCov5.12 Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi gwybodaeth am ei broses apelio er mwyn galluogi apeliadau yn erbyn canlyniadau yn unol â'r Amod hwn.

Amod GQCov6 Penderfyniadau Canolfan yn ymwneud ag apeliadau

GQCov6.1 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gan Ganolfan drefniadau effeithiol ar gyfer caniatáu i Ddysgwr -

(a) wneud cais i'r Ganolfan er mwyn gofyn am -

(i) gwybodaeth o dan Amod GQCov4.1, a

(ii) apêl ar ran y Dysgwr o dan Amod GQCov5, a,

(b) apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y Ganolfan na ddylid gwneud cais o'r fath, ac i'r Ganolfan benderfynu ar yr apêl honno.

GQCov6.2 At ddibenion yr Amod hwn, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau -

(c) bod y Ganolfan yn gwneud Dysgwyr yn ymwybodol o'r trefniadau sydd ar waith cyn cyhoeddi canlyniadau o dan Amod GQCov3.1, a

(d) bod y Ganolfan yn darparu datganiad o'r trefniadau i'r dysgwyr yn brydlon pan ofynnir amdanynt.

Gofynion mewn perthynas â'r wybodaeth y gofynnir amdani gan Ganolfannau

Mae Amod GQCov3.2(a)(i) yn caniatáu i ni nodi gofynion a chanllawiau mewn perthynas â'r wybodaeth y gofynnir amdani gan Ganolfannau i hwyluso cyfrifo'r canlyniadau ar gyfer Cymwysterau GQ yn haf 2020.

Ein gofynion at ddibenion Amod GQCov3.1(a)(ii) yw bod yn rhaid i gorff dyfarnu:

(a) ofyn i'r Canolfannau y mae ganddynt gytundebau â hwy, am y wybodaeth a nodir yn ein cyhoeddiad '*Graddau Haf 2020 ar gyfer TGAU, Safon UG, Safon Uwch, a Thystysgrif Her Sgiliau (THS): Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau*' (y **Canllawiau i Ganolfannau**[7]), a

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod Canolfannau'n cynhyrchu'r wybodaeth honno gan ddefnyddio'r broses a nodir yn y Canllawiau i Ganolfannau.

Mae'r Canllawiau i Ganolfannau hefyd yn cynnwys y ffurf y mae'n rhaid i'r datganiad sy'n ofynnol o dan Amod GQCov3.4 ei gymryd. Fodd bynnag, caiff corff dyfarnu ychwanegu deunydd ychwanegol ar ddiwedd y datganiad hwnnw, neu gall ei gwneud yn ofynnol i Ganolfannau ddarparu datganiad ar wahân ychwanegol, lle mae corff dyfarnu o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan unrhyw Gyfraith Cydraddoldeb.

[7] https://qualificationswales.org/media/5972/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau-fersiwn-2-18-mai-2020.pdf